# CLERA

CYMDEITHAS OFFERYNNAU TRADDODIADOL CYMRU

*Rhoi bywyd newydd i hen alawon*




## PWY YW CLERA?

Sefydlwyd y Gymdeithas ym 1994 gan griw o bobl oedd yn cynnwys Stephen Rees, Wyn Thomas, Robin Huw Bowen, Huw Roberts, Andy McLauchlin, Llio Rhydderch, Elonwy Wright a Frances Môn Jones.

Yr ysbrydoliaeth gyntaf oedd ymweliad gan Stephen Rees i Ogledd-Ddwyrain Lloegr lle'r oedd y mudiad *Folkworks* wedi llwyddo i greu adfywiad gwerin sylweddol.

Prif waith Clera fu cynnal gweithdai i ddysgu'r alawon a dysgu chwarae'r offerynnau. Mae'r mudiad yn teimlo fod cerddoriaeth draddodiadol Cymru wedi cael ei fwrw i'r cysgodion am ormod o amser a'i bod yn bryd iddi gael lle teilwng ym mywyd y genedl ochr yn ochr â cherddoriaeth glasurol, pop a roc, a'r holl fathau eraill o gerddoriaeth.

Cofrestrwyd Clera fel elusen, a chafodd gefnogaeth gan Ffederasiwn Cerddoriaeth Amatur Cymru a Chyngor y Celfyddydau ymhlith eraill.



## CLERA HEDDIW

**Ein nod yw:**

- yn gyffredinol, hybu cerddoriaeth draddodiadol Cymru
- yn benodol, hybu offerynnau traddodiadol Cymru

**Rydym yn gwneud hynny:**

- trwy drefnu gweithdai mewn gwahanol rannau o'r wlad, lle ceir hyfforddiant ar wahanol offerynnau
- trwy drefnu sesiynau anffurfiol mewn tafarnau a lleoliadau eraill
- trwy bwyso'n gyson ar y cyfryngau i roi sylw teilwng i gerddoriaeth draddodiadol
- trwy annog ein haelodau i gefnogi gweithgareddau tebyg yn eu hardaloedd